OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2015 No. 1013

# Gorchymyn Cynllun Digolledu a Chynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) (Diwygio) 2015

**Enwi a chychwyn**

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cynllun Digolledu a Chynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) (Diwygio) 2015.

(2) Yn ddarostyngedig i baragraff (3), daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 31 Mawrth 2015.

(3) Daw'r diwygiadau a wneir gan y darpariaethau canlynol i rym ar 1 Ebrill 2015—

(a) erthygl 2; a

(b) paragraffau 5 a 6 o Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn ac erthygl 3 i'r graddau y mae'n ymwneud â'r paragraffau hynny.

(4) Mae'r diwygiadau a wneir gan baragraffau 1, 2(1) a (3), 3(1) a (2) a 4 o Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn, a chan erthygl 3 i'r graddau y mae'n ymwneud â'r paragraffau hynny, yn cael effaith o 1 Ebrill 2014 ymlaen(**1**).

**Diwygio Gorchymyn Cynllun Digolledu'r Diffoddwyr Tân (Cymru) 2007**

**2.** Mae Atodlen 1 i Orchymyn Cynllun Digolledu'r Diffoddwyr Tân (Cymru) 2007(**2**) wedi ei diwygio yn unol ag Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

**Diwygio Gorchymyn Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2007**

**3.** Mae Atodlen 1 i Orchymyn Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2007(**3**) wedi ei diwygio yn unol ag Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn.

*Leighton Andrews*
Y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus, un o Weinidogion Cymru

30 Mawrth 2015

(**1**) Gweler adran 34(3) o Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p. 21). Caiff gorchymyn a wneir o dan yr adran hon gymryd effaith o ddyddiad cynharach na'r dyddiad y gwneir y gorchymyn.
(**2**) O.S. 2007/1073 (Cy. 111) a ddiwygiwyd gan O.S. 2014/3256 (Cy. 331).
(**3**) O.S. 2007/1072 (Cy. 110) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2009/1225 (Cy. 108), 2010/234, 2012/972 (Cy. 127), 2013/735 (Cy. 87), 2013/1577 (Cy. 145), 2014/523 (Cy .64) a 2014/3254 (Cy. 330).